# Senedd Cymru

Mae Senedd Cymru ar lannau Bae Caerdydd. Dyma gartref democratiaeth Gymreig. Sefydlwyd Senedd Cymru ym 1999 yn dilyn refferendwm ar ddatganoli a gynhaliwyd ym 1997.

‘Datganoli’ yw’r enw sy’n disgrifio’r broses o symud pwerau o’r Senedd yn San Steffan i wledydd unigol y Deyrnas Unedig. Golyga datganoli fod gan Gymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a nifer o ardaloedd trefol yn Lloegr lywodraethau eu hunain. Enw gwreiddiol y sefydliad oedd ‘Cynulliad Cenedlaethol Cymru’. Cafodd yr enw ei newid wrth i’r Cynulliad hawlio mwy o bwerau dros faterion gwleidyddol yng Nghymru

Gall Cymry sydd dros un ar bymtheg oed bleidleisio mewn etholiadau i’r Senedd. Mae pawb yn bwrw dwy bleidlais: y naill i ddewis Aelodau Rhanbarthol a’r llall i ddewis Aelod Etholaethol.

Mae chwe deg o Aelodau o’r Senedd sy’n eistedd am gyfnod o bum mlynedd. Mae ugain ohonynt yn cynrychioli rhanbarthau eithaf mawr, sef Dwyrain De Cymru, Canol De Cymru, Gorllewin De Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru, a Gogledd Cymru. Mae pedair sedd i bob un rhanbarth. Etholir Aelodau Rhanbarthol drwy system gynrychiolaeth gyfrannol.

Cynrychiola’r Aelodau o’r Senedd eraill etholaethau unigol. Caiff y rhain eu hethol drwy system ‘cyntaf i’r felin’: yr ymgeisydd sy’n ennill y nifer fwyaf o bleidleisiau sy’n ennill.

Mae aelodau o’r Senedd yn craffu ar waith y Prif Weinidog a Llywodraeth Cymru. Mae swyddfeydd y Llywodraeth yn Adeiladau y Goron ym Mharc Cathays yng nghanol dinas Caerdydd. Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniadau ynghylch iechyd, addysg, amaethyddiaeth, yr amgylchedd a’r Iaith Gymraeg ymhlith pethau eraill.